# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 2

Y DRETH A GWAREDIADAU TRETHADWY

## PENNOD 3

GWAREDIADAU ESEMPT

### 9 Esemptiadau: cyffredinol

(1) Mae'r Bennod hon yn darparu esemptiad rhag treth ar gyfer gwarediadau deunydd penodol a fyddai fel arall i'w trin fel gwarediadau trethadwy.

(2) Nid yw gwarediad deunydd sy'n esempt rhag treth yn warediad trethadwy.

(3) Yn y Bennod hon, mae cyfeiriadau at warediad deunydd yn cynnwys cyflawni gweithgarwch safle tirlenwi penodedig mewn perthynas â deunydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 9 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 9 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

### 10 Gwarediadau lluosog deunydd ar yr un safle

Mae gwarediad deunydd yn esempt rhag treth i'r graddau—

(a) y mae'n warediad deunydd sydd eisoes wedi ei gynnwys mewn gwarediad trethadwy—

(i) a wnaed ar safle tirlenwi awdurdodedig, a

(ii) yr oedd treth i'w chodi mewn cysylltiad ag ef, a

(b) y'i gwneir ar yr un safle tirlenwi awdurdodedig â'r gwarediad trethadwy hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 10 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I4** A. 10 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

## 11 Mynwentydd anifeiliaid anwes

(1) Mae gwarediad deunydd yn esempt rhag treth—

(a) os yw'n warediad deunydd sy'n weddillion anifeiliaid anwes meirw (ac unrhyw gynhwysydd neu ddeunydd y cynhwysir y gweddillion ynddo), a dim arall, a

(b) os y'i gwneir ar safle tirlenwi awdurdodedig sy'n bodloni'r amod yn is-adran (2).

(2) Yr amod yw na wnaed unrhyw warediadau tirlenwi ar y safle yn ystod y cyfnod perthnasol, heblaw am warediadau deunydd sy'n weddillion anifeiliaid anwes meirw (ac unrhyw gynhwysydd neu ddeunydd y cynhwysir y gweddillion ynddo), a dim arall.

(3) Y cyfnod perthnasol yw'r cyfnod—

(a) sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r adran hon i rym, neu â'r diwrnod y daw'r safle yn safle tirlenwi awdurdodedig, pa un bynnag yw'r diweddaraf, a

(b) sy'n dod i ben yn union cyn y gwarediad a grybwyllir yn is-adran (1).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I6** A. 11 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

## 12 Pŵer i addasu esemptiadau

(1) Caiff rheoliadau—

(a) creu esemptiad ychwanegol rhag treth,

(b) addasu esemptiad presennol, neu

(c) dileu esemptiad.

(2) Caiff y rheoliadau ddarparu i esemptiad fod yn gymwys yn ddarostyngedig i amodau (er enghraifft, amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i ACC gael ei hysbysu cyn y gwneir gwarediad).

(3) Caiff y rheoliadau ddiwygio unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â'r dreth.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** A. 12 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I8** A. 12 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, PENNOD 3.